# Clwyf y Cyfresi 2 – Brynley F. Roberts

**PAMFFLEDI HEDDYCHWYR CYMRU**

Tair cyfres, pob un yr un faint, yn bamffledi clawr papur. Y gyfres gyntaf (1941-42), 1–12, a'r teitl mewn bocs; yr ail gyfres (1942-44), 1–12, enw'r gyfres mewn ysgrithiad *lino cut* gan D.P.T. (sef Dewi Prys Thomas), y drydedd gyfres (1944-46), 1–7, enw'r gyfres mewn ymyl du. Cyfresi 2 â motiff y golomen. Argraffwyd yng Ngwasg Gee, Dinbych. Pris $3^{d}$.

**Cyfres 1**

1. Iorwerth C Peate, *Y Traddodiad Heddwch yng Nghymru.*
2. George M Ll Davies, *Ffordd y Cymod.*
3. Rhys J Davies, *Y Cristion a Rhyfel.* Fersiwn Saesneg, wedi'i gyfieithu gan Mervyn Ll Turner, *The Christian and war* (No. 1).
4. Dafydd Jenkins, *Economeg Heddwch.*
5. Herbert Morgan, *Rhyfel a'r Testament Newydd.*
6. Ben Bowen Thomas, *Cymdeithas: yr unigolyn a'r wladwriaeth.*
7. F. Dostojewskij, troswyd gan T Gwynn Jones, *Proffwydi Rwsia: y ddau ddewis.*
8. T Eirug Davies, *Yr Eglwys Fore a Rhyfel.*
9. George M Ll Davies, *Gandhi a Chenedlaetholdeb India.*
10. Tom Parry (gol.) *Tystiolaeth y Tadau.*
11. Hywel D Lewis, *Crist a Gwleidyddiaeth.*
12. Gwynfor Evans, *Tystiolaeth y Plant.*

**Cyfres 2**

1. Gwilym R Jones (gol.), *Caniadau'r Dyddiau Du: rhan 1.*
2. Gwilym R Jones (gol.), *Caniadau'r Dyddiau Du: rhan 2.*
3. Ithel Davies, *Rhyfel a'r Werin.*
4. D Myrddin Lloyd, *Cenedlaetholdeb a Rhyfel.*
5. J Middleton Murray (cyf. I C Peate), *Duw neu'r Genedl?*
6. J W Jones (gol.), *Tystiolaeth Cyn-filwyr.*
7. T Ellis Jones a D E Williams, *Arfau'r Deyrnas.*
8. George M Ll Davies, *Cenhadon Hedd.*
9. E K Jones, *Atgofion am Dri Rhyfel.*
10. Davies Aberpennar, *Ffederaliaeth.*
11. J Gwyn Griffiths, *Anarchistiaeth.*
12. *Cenhadon Hedd II: S.R* (Iorwerth C Peate), *Thomas Rees* (R J Jones).

**Cyfres 3**

1. George M Ll Davies, *Triniaeth Troseddwyr.*
2. J Lloyd Jones, *Diffodd y Golau.*
3. Rhys J Davies, *Rhagrith Rhyfeloedd.*
4. Gwilym Bowyer, *Yr Eglwys wedi'r Rhyfel.*
5. Iorwerth Jones, *Satyagraha:Grym Di-drais.*
6. E K Jones, *Heddychwyr wrth eu Gwaith.*
7. D E Williams (gol.), *Homiliau Heddwch.*

**LLYFRAU DEUNAW**
**GWASG PRIFYSGOL CYMRU**

Clawr papur a siaced lwch bapur unffurf, tua 60 o dudalennau ar gyfartaledd.

Pris: deunaw (ceiniog), sef 1/6, ond rhai rhifynnau dwbl, pris 2/6. Detholion o weithiau awduron safonol neu o weithiau unigol gyda rhagymadrodd byr gan y golygydd.

E Morgan Humphreys, *Llythyrau 'rhen ffarmwr,* 1939.
Henry Lewis, *Hen Gyflwyniadau,* 1948.
T H Parry-Williams, *Islwyn: detholion o'i farddoniaeth,* 1948.
G M Ashton, *Hunangofiant a Llythyrau Twm o'r Nant,* 1948.
Hugh Bevan, *Gohebiaethau Syr Meurig Grynswth,* 1948.
W Lliedi Williams, *Hunangofiant ac Ysgrifau Ap Fychan,* 1948.
Stephen J Williams, *Robert ap Gwilym Ddu: detholion o'i weithiau,* 1948.
J Dyfnallt Owen, *Rhad Ras Ioan Thomas,* 1949 (cyfrol ddwbl).
Henry Lewis, *Cydymaith i'r hwsmon Hugh Jones, Maesglasau,* 1949.
Enid Pierce Roberts, *Taliesin Hiraethog; detholion o'i weithiau,* 1950.
Thomas Jones, *Bugeiliaid Epynt gan David Owen, 'Brutus',* 1950 (cyfrol ddwbl).
Hugh Bevan, *Alegorïau Christmas Evans,* 1950.
R T Jenkins, *Golwg ar y Beiau Jeremy Owen,* 1950.
Glanmor Williams, *David Rees, Llanelli: detholion o'i weithiau,* 1950.
Ben Bowen Thomas, *Baledi Morganwg,* 1951 (cyfrol ddwbl).
D. Myrddin Lloyd, detholwyd a golygwyd gan *William Williams, 'Myfyr Wyn', Atgofion am Sirhywi a'r cylch,* 1951.
Iorwerth C. Peate, *Samuel Roberts, Llanbryn-Mair, Cilhaul ac ysgrifau eraill,* 1951 (cyfrol ddwbl).
Henry Lewis, gol., *Morgannwg Matthews Ewenni,* 1953.
Brinley Rees, *Ieuan Gwynedd: detholiad o'i ryddiaith,* 1957 (cyfrol ddwbl).

**LLYFRAU'R DRYW, Llandybïe.**

Eglurwyd y bwriad ar glawr y gyfrol gyntaf:

> Ymgais yw Llyfrau'r Dryw i roddi i Werin Cymru lyfrau Cymraeg o bob math – yn ystorïau byrion, nofelau, barddoniaeth, pregethau, cyfrolau ar broblemau cyfoes, etc. – am y pris isaf posibl. Ar y cyntaf bwriadwyd i'r pris fod yn chwe cheiniog y gyfrol, ond yn anffodus oherwydd y crogbris a godir am nwyddau heddiw, amhosibl oedd eu cynhyrchu am y pris yma. Rhaid oedd codi swllt.
>
> Ni fwriedir cyhoeddi unrhyw waith sydd eisoes wedi ei gyhoeddi, ond llenyddiaeth newydd ffres, yn dwyn, ni obeithiwn, awel newydd i fyd llenyddiaeth Gymraeg. Y mae llawer o brif lenorion y genedl eisoes yn paratoi cyfrolau ar ein cyfer.
>
> Dibynna llwyddiant yr anturiaeth ar y derbyniad a roddir gennych chwi – Gwerin Cymru. Nid gwneud arian yw ein hamcan, ond yn unig eich gwasanaethu chwi. Chwi sydd eisoes wedi prynnu (sic) cyfrol dywedwch wrth eich cyfeillion – peidiwch â'i benthyca!
>
> Chwi Gymry oddicartref neu sydd allan o gyrraedd y Llyfrwerthwyr, mynnwch eich cyfrolau drwy'r post. Y pris drwy'r post fydd 1/2.

Ar glawr cyfrol 25 ceir:

> Bron bedair blynedd yn ôl, pan oedd trai ym myd cyhoeddi llyfrau Cymraeg, cychwynnwyd ar gyfres **Llyfrau'r Dryw**. Bu'r fath gynnydd ar werthiant ac ar fri y llyfrau oddiar y dyddiau hynny nes bod bron pob Cymro a Chymraes erbyn hyn yn gwybod amdanynt ac yn ymfalchïo ynddynt... Y ffaith inni lwyddo i lanw bwlch ym myd y werin




> Gymraeg yw'r peth mwyaf yr ymhyfrydwn ynddo. Y mae **Llyfrau'r Dryw** yn parhau i fod yn llyfrau gorau Cymru.

Cododd y pris o 1/- i 1/3 gyda chyfrol 17, a 1/6 gyda chyfrol 34 (ac eithrio cyfrol 35 a oedd yn 1/3, a bod cyfrol 41 yn cael ei hysbysebu am y pris 2/-): pris cyfrolau 42 a 44 oedd 2/- (er mai 1/6 sydd ar glawr 44), cyfrol 43 2/6.

Golygyddion Cyffredinol: Aneirin Ap Talfan ac Alun T. Davies, MA., LlB.

1. Deg Pregethwr, *Deg Pregeth,* Tachwedd 1940 (5 arg. Mai 1941).
2. Sarnicol, *Catiau Cwta,* Rhagfyr 1940 (2 arg. Rhagfyr 1940, 3ydd arg. Chwefror 1941).
3. W.Ambrose Bebb, *1940: lloffion o ddyddiadur,* Chwefror 1941 (2 arg. Mawrth 1941).
4. Nantlais, *Darlun a Chân,* Mawrth 1941 (2 arg. Ebrill 1941, 3ydd arg. Awst 1941).
5. E Tegla Davies, *Gyda'r Glannau,* Gorffennaf 1941 (2 arg. Awst 1941).
6. R T Jenkins, *Storïau Gwallter Map,* Gorffennaf 1941.
7. E Llwyd Williams, *Hen Ddwylo,* Awst 1941.
8. T Hughes Jones, *Sgweier Hafila a storiau eraill,* Medi 1941.
9. W Ambrose Bebb, *Y Baradwys Bell,* Hydref 1941 (2 arg. 1943).
10. Kate Bosse-Griffiths, *Anesmwyth Hoen,* Rhagfyr 1941.
11. John Aelod Jones, *Jones y Plismon,* Mai 1942.
12. Eluned Bebb, *Hwiangerddi'r Wlad,* Gorffennaf 1942.
13. Thomas Jones, *Cerrig Milltir,* Gorffennaf 1942 (2 arg. Awst 1942, 3ydd arg. Medi 1942).
14. T Hudson-Williams, *Storiau o'r Rwsieg,* Medi 1942.
15. W D Williams, *Cerddi'r Hogiau,* Hydref 1942.
16. T Glyndwr Jones, *Cyfrinach yr Ogof,* Tachwedd 1942, (2 arg. 1942).
17. W Ambrose Bebb, *Dyddlyfr 1941,* Rhagfyr 1942.
18. Alwyn D Rees, *Adfeilion,* Mehefin 1943 (2 arg. Mehefin 1943).
19. E Morgan Humphreys, *David Lloyd George,* Awst 1943 (2 arg. Medi 1943).

*(Parhad ar dudalen 10)*